

Newyddlen

Cronfa Pensiwn Gwynedd

Awst 2022



Faint ydwyf yn talu?

Fel aelod actif o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rydych yn gwneud cyfraniadau i'r cynllun. Mae'r cyfraniadau hyn yn denu gostyngiad yn y dreth y byddwch yn talu.

Mae'r raddfa yr ydych yn talu yn dibynnu ar eich cyflog. Mae'r bandiau cyflog o 1^{af} o Ebrill 2022 wedi'u hamlinellu isod. Mi fydd yr amrediad cyflog ar gyfer pob band cyfraniadau yn newid bob mis Ebrill, yn unol â chostau byw:

Gwir dâl pensiynadwy:	Cyfraniad Prif Adran :	Cyfraniad Adran 50/50
Hyd at £15,000	5.5%	2.75%
£15,001 i £23,600	5.8%	2.90%
£23,601 i £38,300	6.5%	3.25%
£38,301 i £48,500	6.8%	3.40%
£48,501 i £67,900	8.5%	4.25%
£67,901 i £96,200	9.9%	4.95%
£96,201 i £113,400	10.5%	5.25%
£113,401 i £170,100	11.4%	5.70%
Mwy na £170,101	12.5%	6.25%

Mae'n ddyletswydd ar eich cyflogwr i roi gwybod i chi pa fand cyfrannu yr ydych yn ei dalu. Os ydych yn credu eich bod wedi'ch gosod yn y band anghywir, cysylltwch a'ch cyflogwr.

Mae gan y CPLIL opsiwn sy'n caniatáu i weithwyr sy'n gymwys ar gyfer aelodaeth CPLIL ddewis talu hanner eich cyfraniad arferol a derbyn hanner lefel y pensiwn yn gyfnewid am y cyfnod hwn yn hytrach nag optio allan o'r cynllun yn gyfan gwbl. Byddwch yn dal i gadw'r yswiriant salwch a marwolaeth llawn yn ystod y cyfnod hwn. Os dymunwch ymuno ag adran 50/50 y cynllun, bydd angen i chi ofyn am ffurflen etholiad gan y cynllun pensiwn.

Codiad Pensiwn

Mae pensiynau gohiriedig, pensiynau mewn taliad a'r elfen gyfartalog gyrfa o fuddion pensiwn ar gyfer aelodau actif yn cael eu hailbriso bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar gyfer Ebrill 2022 roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.1% i'r buddion.

Newidiadau i'r Isafswm Oedran Pensiwn Arferol

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yr oedran cynharaf y gallwch gymryd eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Ni fydd hyn yn berthnasol i ymddeoliadau ar sail afiechyd.

1



Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ar gyfer cynlluniau pensiwn sydd eisoes yn caniatáu i aelodau hawlio eu buddion pensiwn o 55 oed ymlaen heb ganiatâd eu cyflogwr (fel y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, dim ond i bobl a oedd yn aelodau o'r cynllun pensiwn cyn 4 Tachwedd 2021 y bydd hyn yn berthnasol. Yn ogystal, cyn y gellid cymhwyso'r amddiffyniad hwn i aelodau, byddai angen ei gynnwys yn y rheoliadau CPLIL.

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn wasanaeth rhad ac am ddim a ddarperir gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Gweledigaeth y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yw *"Pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau"*.

Helpwr
Arian

Maent yn gorff hyd braich, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gydag ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod gan bobl ledled y DU arweiniad a mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau ariannol effeithiol dros eu hoes.

Maent yn dwyn ynghyd dri darparwr uchel eu parch o ganllawiau ariannol diduedd am ddim:

- Gwasanaeth Cyngor Arian
- Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau
- Pensiwn Doeth

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig ar gael ar eu gwefan:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy>

ScamSmart

Gall sgamwyr fod yn groyw ac yn wybodus yn ariannol, gyda gwefannau credadwy, tystebau a deunyddiau sy'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth y peth go iawn. Mae sgamwyr yn dylunio cynigion deniadol i'ch perswadio i drosglwyddo'ch cronfa bensiwn iddynt neu i ryddhau arian ohono. Yna caiff ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau anarferol a risg uchel fel eiddo tramor, bondiau ynni adnewyddadwy, coedwigaeth, unedau storio, neu eu dwyn yn gyfan gwbl. Mae tactegau sgam yn cynnwys y canlynol:

- Cyswllt hollol annisgwyl
- Addewidion o enillion uchel / gwarantedig
- Adolygiadau pensiwn am ddim
- Mynediad at eich pensiwn cyn 55 oed
- Pwysau i weithredu'n gyflym

Os ydych yn amau sgam, rhowch wybod i:

- Financial Conduct Authority (FCA) drwy alw **0800 111 6768** neu **www.fca.org.uk**
- Action Fraud ar **0300 123 2040** neu **www.actionfraud.police.uk**
- Os ydych chi yng nghanol trosglwyddiad, cysylltwch â'ch darparwr ar unwaith ac yna cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau (TPAS) ar **https://maps.org.uk/**

FCA FINANCIAL
CONDUCT
AUTHORITY

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
0300 123 2040



Pum cam syml i'w dilyn i amddiffyn eich hun rhag sgamiau pensiwn:

Stopio - Peidiwch byth â gwneud unrhyw beth nad ydych chi eisiau ei wneud na gwneud unrhyw benderfyniadau yn y fan a'r lle

Gwiriwch - Gwiriwch eu tystlythyrau bob amser

Gofynnwch - Gofynnwch i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo am ail farn bob amser

Fy un i - Peidiwch â rhoi gwybodaeth bersonol i ffwrdd

Rhannwch - Eich profiad gydag eraill i leihau eu risg o gael eu twyllo.

Sbardun Cryfach i Gyngor Pensiynau

Er mwyn helpu cynilwyr cyfraniadau diffiniedig (DC) i wneud gwell penderfyniadau ar ymddeoliad, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau sydd â Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) sy'n gysylltiedig â'u pensiwn CPLIL gael cyngor gan Pension Wise, neu optio allan o dderbyn y cyngor cyn hynny, cyn y gallent gael mynediad i'r gronfa CGY. Ddaeth yr rheoliadau newydd i rym ar 1 Mehefin 2022.

Mae gwefan yr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) wedi cael gweddnewidiad

Mae gwefan genedlaethol aelodau'r CPLIL wedi'i hailgynllunio i'w gwneud yn haws i chi gael gwybod mwy am dalu i mewn i'r CPLIL. Ewch i wefan CPLIL ar <https://www.lgpsmember.org/> i gael golwg ble gallwch ddod o hyd i offer, cyfrifianellau a fideos defnyddiol i'ch helpu i ddeall mwy am eich pensiwn.

cplll

Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol

Fy Mhensiwn Ar-Lein

Mae oddeutu 13,000 o aelodau eisoes wedi ymuno â **Fy Mhensiwn Ar-lein**, sy'n borth diogel sy'n eich galluogi i weld gwybodaeth bersonol ac ariannol am eich pensiwn. I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol ewch i'n gwefan ar <https://aelodau.cronfabensiwngwynedd.cymru> lle gallwch chi:

- Rhedeg amcanestyniadau pensiwn
- Gweld manylion pensiwn
- Gweld Datganiadau Blynyddol o Fuddiannau
- Gweld a Diwygio manylion personol

Ddylai eich Datganiad Blynyddol o Fuddiannau roi syniad i chi o'r buddion sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn dreth ddiwethaf ac ar eich Oedran Pensiwn Arferol. Mae'r wybodaeth yn y datganiad yn cael ei darparu gan eich cyflogwr ac yn cael ei chreu mewn ymarfer swmp heb gael ei gwirio â llaw. Cyn cyflwyno'ch bwriad i adael eich swydd, argymhellir eich bod yn cysylltu â ni trwy lythyr neu e-bost i ofyn am amcangyfrif ffurfiol o'ch buddion pensiwn.



Cymryd gofal o'ch pensiwn

Rheolwch eich polisi ar-lein gyda ein porth Hunan Gwasanaeth Aelodau.

Os ydych yn ystyried ymuno neu eisoes yn aelod, gall porth hunanwasanaeth cenhedlaeth nesaf Aquila Heywood eich helpu i gyflawni eich nodau ymdeol.



Cofrestru

Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer ein system hunanwasanaeth.

Cliciwch yma »



Actifadu

Os ydych wedi derbyn allwedd actifadu, cliciwch yma.

Cliciwch yma »



Mewngofnodi

Os yda chi wedi cofrestru yn barod, cliciwch yma i fewngofnodi.

Cliciwch yma »

Enwebiad Grant Marwolaeth



Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

Eich Manylion Personol

Enw:	Dyddiad Geni:
Rhif Yswiriant Gwladol:	
Cyfeiriad Cartref:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 1

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 2

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 3

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Datganiad

Rydych chi wedi darllen y nodiadau drosodd. Gofynnaf i Cyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd) ddefnyddio disgrisiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad.

Llofnodwyd:	Dyddiad:
-------------	----------

Dychwelwch os gwelwch yn dda i: **Adain Bensiwnau, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

O'r diwrnod cyntaf byddwch yn ymuno â'r cynllun pensiwn, mae lwmp swm grant marwolaeth o **3 gwaith eich cyflog pensiynadwy blynyddol** yn daladwy os byddwch yn marw tra mewn gwasanaeth, ac o dan 75 mlwydd oed. Dylai pob aelod o'r cynllun cwblhau ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth. Mae hyn yn eich galluogi i gynnig 1 neu fwy o unigolion neu sefydliadau i dderbyn y taliad grant marwolaeth berthnasol.

Gallwch enwebu/diweddaru eich mynegiant drwy mewngofnodi i mewn i'ch **Fy Mhensiwn Ar-Lein** neu cysylltwch â'r Gronfa os byddai'n well gennych gael copi caled. Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd y disgrisiwn terfynol ar bwy fydd yn derbyn y lwfans marwolaeth, ond byddant bob amser yn cymryd eich dymuniadau i ystyriaeth.

Manylion Cyswllt

Rhif Ffôn:

01286 679982

E-bost:

pensiwnau@gwynedd.llyw.cymru

Cyfeiriad:

Cronfa pensiwn Gwynedd,
Stryd Y Jêl, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1SH

